



3CEPA

Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol 3 Sir
3 County Independent Professional Advocacy

Beth yw eiriolwr proffesiynol annibynnol?

Mae eiriolwr proffesiynol annibynnol wedi cael eu hyfforddi ac maent yn cael eu talu i gyflawni eu rôl proffesiynol fel eiriolwr.

Mae eiriolwr yn eich cynorthwyo i sicrhau y parchir eich hawliau ac y gwrandawir ar eich safbwyntiau a'ch dymuniadau.

Bydd eiriolwr yn eich helpu i archwilio a dewis eich dewisiadau, a byddant yn eich cynorthwyo gyda'r dewisiadau y byddwch yn eu gwneud. Bydd eiriolwr yn sicrhau eich bod yn ymwneud yn llawn gyda'r penderfyniad sy'n effeithio arnoch

A fydd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn gallu fy nghynorthwyo?

Gallwch fanteisio ar Wasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol y 3 sir (3CEPA):

Os ydych yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion neu Sir Benfro.

Os ydych chi dros 18 oed.

Os oes gennych chi anghenion gofal cymdeithasol a chymorth **NEU** rydych yn gofalu am rywun sydd ag anghenion cymorth.

AC

Os yw'ch anghenion cymorth yn cael eu hasesu, rydych yn destun gweithgarwch cynllunio gofal a chymorth, caiff eich cynllun gofal ei adolygu, neu mae gennych chi ymholiad diogelu.

AC

Os ceir rhwystrau sy'n eich atal rhag cael eich llais wedi'i glywed neu rhag cyfranogi'n llawn.

AC

Nid oes gennych chi unrhyw un arall y byddech yn dymuno iddynt eirioli ar eich cyfer.

Am ragor o wybodaeth neu i wneud cyfeiriad, trowch at:

cipawales.org.uk

Neu ffoniwch:

0800 206 1387

Neu anfonwch E-bost at:

info@cipawales.org.uk